Cronfa Bensiwn Gwynedd Pension Fund

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Rhagair** | 1-2 |
| 2. | **Adolygiad y Flwyddyn** | |
| | 2.1 Gweinyddiaeth Pensiynau | 3-8 |
| | 2.2 Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR) | 9 |
| | 2.3 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCR19) a Safon | 9 |
| | Adrodd Ariannol 17 (SAA17) | 9 |
| | 2.4 Prisiad Actiwaraidd | 10 |
| | 2.5 Datganiad Strategaeth Cyllido | 10 |
| 3. | **Tueddiadau Diweddar** | 11 |
| 4. | **Adroddiad Rheoli** | |
| | 4.1 Gweinyddiaeth y Cynllun | 12-14 |
| | 4.2 Sefyllfa Actiwaraidd | 14-15 |
| | 4.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw | 15-16 |
| | 4.4 Pwerau Buddsoddi | 17 |
| | 4.5 Rheoli Buddsoddiadau | 18 |
| | 4.6 Perfformiad Buddsoddi | 19-20 |
| | 4.7 Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | 21 |
| | 4.8 Datganiad Strategaeth Cyllido | 21 |
| 5. | **Strwythur Rheoli** | 22 |
| 6. | **Ystadegau Aelodaeth** | 23 |
| 7. | **Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa** | 24 |
| 8. | **Y Cyfrifon** | |
| | Datganiad o Gyfrifon 2010-2011 | 25-26 |
| | Nodiadau i'r Cyfrifon 2010-2011 | 27-37 |
| | Dadansoddiad Daliadau fel ar 31Mawrth 2011 | 38 |
| | Datganiad yr Archwilydd Annibynnol | 39 |
| 9. | **Atodiadau** | |
| | Datganiad Polisi Cyfathrebu | 40-51 |
| | Datganiad Polisi Llywodraethu | 52-53 |
| | Datganiad Cydymffurfiad â'r Drefn Lywodraethol | 54-58 |
| | Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi | 59-73 |
| | Datganiad Strategaeth Cyllido | 74-91 |

# 1. Rhagair

Yn dilyn perfformiad da yn ystod 2010/11 roedd asedau'r gronfa yn cyrraedd £1,025m ar 31 March 2011 fel y dangosir ar dudalen 25 yn y cyfrifon.

Dros y flwyddyn ariannol dychwelodd buddsoddiadau'r Gronfa +8.5% o'i gymharu â'r meincnod o 7.8% am y cyfnod hwn (a'r 5.9% a ragdybiwyd yn y prisiad diwethaf). Cronfa Gwynedd oedd yr uchaf ond un o ran perfformiad buddsoddi drwy Gronfeydd Cymru i gyd a 40fed drwy Brydain.

Bu i'r ddau reolwr newydd a benodwyd yn 2009/10 berfformio'n dda yn 2010/11 gyda Fidelity International yn dychwelyd 9.1% (1.1% uwchben y meincnod) ac Insight Investment yn dychwelyd 4.7% (4.1% uwchben y meincnod) (gweler tudalennau 19 ac 20 am y manylion).

Cwblhawyd prisiad y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2010 yn ystod 2010/11 ac mae'r lefel gyllido wedi aros yr un fath â'r prisiad blaenorol ar 31 Mawrth 2007 sef 84%. Dengys gwybodaeth ynglŷn â lefel cyllido cynlluniau pensiwn awdurdodau lleol eraill sy'n gleientau i actiwari y Gronfa, bod y lefel canrifol wedi gostwng o 85% i 75% rhwng 2007 a 2010. Yn erbyn y cefndir hwn mae cynnal y lefel gyllido yn llwyddiant arwyddocaol. Mae'n galonogol hefyd nodi i ni dderbyn adroddiad yn ddiweddar gan yr Actiwari ar y profiad a gafwyd ers cynnal y prisiad sy'n awgrymu fod y lefel cyllido wedi codi i tua 87% erbyn 31 Mawrth 2011.

22.1% yw'r gyfradd cyfraniad cyffredin ar gyfer y gronfa nawr yn erbyn ffigwr canolrifol o 25.4% yn nadansoddiad yr actiwari. Fel y adroddwyd y llynedd, roedd yna bryder ynglŷn â'r cynnydd posibl yng nghyfraniadau'r cyflogwyr yn dilyn prisiad y Gronfa ac fe ymgymerwyd ymarfer ymgynghori er mwyn asesu sut byddai modd lliniaru hyn. O ganlyniad mae cyrff gyda phwerau codi trethi yn cael cyfyngiad o +/-0.5% ar y newid yn eu cyfraniadau cyflogwr mewn unrhyw flwyddyn ariannol. Cytunwyd y byddai modd i'r cyflogwyr gyda chodiadau sylweddol eu rhannu dros gyfnod hyd at chwe blynedd yn amodol ar leiafswm o 0.5% y flwyddyn. Mae'r Datganiad Cyllido Strategol yn cynnwys y newidiadau hyn (gweler tudalennau 74-91). Roedd y mesurau hyn ynghyd â'r lefel diffyg statig yn sicrhau bod y codiadau yn fforddiadwy i gyflogwyr unigol.

Yn dilyn cwblhau prisiad y Gronfa, bydd y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi yn cael ei hadolygu yn ystod 2011/12 ac mae'r Pwyllgor Pensiynau ar hyn o bryd yn ystyried dosbarthiadau buddsoddi eraill i'w cynnwys yn y Strategaeth Buddsoddi. Bydd y Datganiad diwygiedig yn destun ymgynghoriad yn ei dro.

Parhaodd yr uned weinyddu i berfformio'n unol â'r targedau a osodwyd (gweler tudalen 8) sydd yn galonogol i nodi gan gymryd y newidiadau a weithredwyd yn ystod 2010/11 a'r newidiadau arfaethedig i'w wynebu yn y dyfodol agos. Mae'r gweithgareddau cyfathrebu yn parhau i ddatblygu'r berthynas gyda'r cyflogwyr er mwyn annog deialog a gwell dealltwriaeth ar faterion pensiynau.

Fel y disgwyliwyd comisiynodd y Llywodraeth adolygiad o holl gynlluniau pensiwn y sector gyhoeddus a'u fforddiadwyedd yn y dyfodol. Cyhoeddodd Arglwydd Hutton o Furness ei adroddiad interim ym mis Hydref 2010 a'i adroddiad terfynol ym Mawrth 2011. Tra roedd yr adroddiadau yn cydnabod pwysigrwydd y cynlluniau a'r angen parhau gyda darpariaeth sy'n fras o natur debyg yn y dyfodol, gwnaethpwyd nifer o argymhellion am newidiadau i'r cynlluniau. Yr un mwyaf arwyddocaol fyddai i symud i gynlluniau cyflog cyfartalog dros fywyd gwaith yn hytrach na'r cynlluniau cyflog terfynol presennol.

Mae'r Llywodraeth wedi gweithredu ar yr argymhelliad tymor byr yn yr adroddiad interim ac hefyd maent wedi cyhoeddi cynigion i godi cyfraniadau gweithwyr 3% ar gyfartaledd. Codwyd pryderon ynglŷn â'r effaith y bydd hyn yn cael ar lefelau aelodaeth yn y cynlluniau a allasai greu anawsterau cyllido pellach os yw niferoedd sylweddol yn gadael y cynlluniau. Tra nad yw'n dderbyniol bod cyflogwyr yn cyfarfod cost yr holl risgiau y mae'r gronfa bensiwn llywodraeth leol yn eu hwynebu, mae angen i unrhyw newidiadau mewn cyfraniadau gweithwyr gael eu gweithredu yn deg o fewn llywodraeth leol ac ar draws cynlluniau eraill y sector gyhoeddus sydd heb eu cyllido.

Mae'r argymhellion tymor hir yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a disgwylir ymgynghoriad yn yr Hydref. Manylir yr argymhellion sydd yn effeithio'r CPLlL ar dudalennau 4 a 5. Byddem yn cynghori'r holl gyflogwyr a phartïon eraill gyda diddordeb i ymateb i'r broses ymgynghori er mwyn sicrhau bod barn pawb yn cael ei gynnwys yn y broses penderfynu.

Yn ogystal â'r prif argymhellion, mae'r adroddiad yn cynnwys yr argymhelliad y dylid annog Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol i gyd-weithio er mwyn lliflinio gweinyddiaeth a swyddogaethau eraill. Comisiynodd gweinyddwyr yr wyth Gronfa Bensiwn yng Nghymru adroddiad ar y strwythur presennol ac maent yn cynllunio adolygiad mwy manwl yn ystod 2011/12, i geisio adnabod a oes yna achos dros ostwng y nifer cronfeydd pensiwn yng Nghymru.

Gan fod y newidiadau a argymhellir yn adroddiad Lord Hutton yn cynnwys datganiad bod yr holl ddiwygiadau i'w cyflwyno erbyn diwedd y Senedd hon yn 2015 mae'n sicr bod amser heriol i'w ddod.



Dilwyn O. Williams
**Cyfarwyddwr Corfforaethol**

# 2. Adolygiad y Flwyddyn

## 2.1 Gweinyddiaeth Pensiynau

### Cyffredinol

### Cyffredinol

Dros y flwyddyn olaf gwelwyd pensiynau sector gyhoeddus a'r wladwriaeth yn dioddef archwiliad dwys ar eu fforddiadwyedd a chynaladwyedd. Yn fy nghyflwyniad i adroddiad llynedd nodais fod pensiynau sector gyhoeddus eisoes yn bwnc trafod wleidyddol dwys ac yn bwnc gyda blaenoriaeth uchel gan i'r pleidiau i gyd yn arwain i fyny at yr etholiad cyffredinol.

Ar 11 Mai 2010 cyhoeddodd llywodraeth y glymblaid ddogfen yn gosod allan termau'r cytundeb rhyngddynt gan gynnwys eu hymrwymiad i sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu fforddiadwyedd tymor hir gynlluniau pensiwn sector gyhoeddus ac o ran darpariaethau'r wladwriaeth i:

- adfer y cyswllt enillion ar gyfer pensiwn sylfaenol y wladwriaeth;
- adolygu'r dyddiad pan ddechreuir codi oed pensiwn y wladwriaeth 66:
- i ddiddymu oed 65 fel oed ymddeol diofyn.

Yn ei gyllideb argyfwng dyddiedig 22ain Mehefin cyflwynodd y Canghellor newid i'r drefn mynegeio pensiynau gwasanaeth cyhoeddus o fynegai pris manwerthu (MPM) i fynegai pris defnyddiwr (MPD). Ar yr un pryd cyhoeddodd rewiad dwy flynedd ar gyflogau sector cyhoeddus i enillwyr dros £21,000 y flwyddyn. Caiff y ddau fesur yma effaith positif ar rwymedigaethau cronfeydd CPLIL yn y tymor byr, a thrwy gyhoeddi hyn yn gynnar gelli ei ffactorio i dybiaethau prisiant 2010.

Cadarnhaodd y Canghellor cread comisiwn annibynnol, gyda'r Arglwydd Hutton o Furness yn ei arwain, i ymgymryd â "adolygiad sylfaenol a ffurfiannol o bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus" ac i ystyried achos arbedion tymor byr erbyn yr Adolygiad Gwariant ym Medi 2010.

### Comisiwn Annibynnol y Llywodraeth ar Bensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus (CALIPGC)

Gweithrediad cyntaf Arglwydd Hutton fel arweinydd y Comisiwn oedd gofyn buddgyfranogwyr a budd-ddeiliad gyflwyno, erbyn Gorffennaf 2010, tystiolaeth a fyddai'n ei gynorthwyo i ystyried fforddiadwyaeth, tegwch, effaith ar fudoledd ac amlblwyfaeth cynlluniau pensiwn sector gyhoeddus ar hyn o bryd a'r amcanion ddylai tywys pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.

Cyhoeddodd y CALIPGC ei adroddiad interim ar 7fed Hydref 2010 a datgan iddo dderbyn bod pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn rhan gyflawn o dâl gweithwyr sector gyhoeddus a gyda rhan i chwarae yng ngallu'r sector gyhoeddus i recriwtio a chadw staff. Gwrthododd hefyd yr honiad bod pensiynau sector gyhoeddus yn "eurblatiog" a chydnabod mai camgymeriad byddai israddio darpariaeth pensiynau cyhoeddus i lefel y sector breifat.

Nododd yr adroddiad bod y newid i'r mynegiant eisoes wedi ei gyhoeddi o MPM i MPD eu hun yn arwain at leihad o thua 15% yng ngwerth buddion i aelodau'r cynllun a byddai ynghyd a diwygiadau cynharach a wnaed i gynlluniau pensiwn cyhoeddus yn arwain at gyfanswm o 25% ostyngiad yn werth buddion aelodau'r cynllun.

Derbyniodd y Comisiwn dystiolaeth ar amrywiad costau yn bodoli rhwng gwahanol gronfeydd CPLIL a'r arbedion effeithlonrwydd dichonadwy pe bae leihau'r nifer cronfeydd, ond yn bwysicach na hyn oedd y casgliad y dylid parhau gyda CPLIL cronedig.

Yn ei araith ar Adolygiad Gwariant y Sector Gyhoeddus mynegodd y Canghellor i'r Llywodraeth dderbyn argymelliadau interim y Comisiwn ac yn ymrwymedig i barhau gyda phensiwn diffiniedig o ryw ffurf ond am aros argymelliadau terfynol y Comisiwn cyn penderfynu natur y buddion a'r level cyfraniad dilyniadol manwl angenrheidiol.

Cyhoeddodd y CALIPGC ei adroddiad terfynol ar 10fed Mawrth 2011. Ail adroddwyd yr achos gwreiddiol i ddiwygio cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys:

- gwerth cynyddol y buddion oherwydd hirhoedledd;
- triniaeth anghyfartal aelodau o fewn yr un proffesiwn;
- annhegwch y cydrannu costau rhwng gweithiwr, y cyflogwr a'r treth dalwr; a'r
- bariau rhag cynyddu'r amrediad o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus

Bod unrhyw adolygiad o gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau iddynt fod yn:

- fforddiadwy a chynaliadwy;
- ddigonol a theg;
- cefnogi cynhyrchaeth; a
- thryloyw a syml.

Gwaed 27 argymhelliad yn yr adroddiad i adolygu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. Y prif rai gyda goblygiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw bod:

- y CPLIL yn parhau fel un cronedig;
- cydnabod yn llawn hawliau eisoes wedi'u cronni yn y CPLIL;
- dylid symud aelodau o gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig gwasanaeth cyhoeddus i gynlluniau cyfartaledd enillion gyrfa wedi'u hadbrisio (CEGA neu CARE):
- angen gosod graddfeydd cyfrannu yn unol â lefelau enillion;
- rhaid gosod terfyn uchaf ar gostau i warchod y trethdalwr;
- uwchraddio'r buddion pensiwn aelodau cyfrannol yn unol â chyfartaledd enillion yn ystod aelodaeth gyfredol;
- coladu a lleoli data cynhwysfawr holl gronfeydd CPLIL yn ganolog a'u cyhoeddi (gan gynnwys cymariaethau)
- pob cronfa CPLIL unigol i gael Bwrdd Pensiynau penodedig priodol, hyfforddedig a chymwys gan gynnwys enwebeion aelodau:
- cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus i barhau i ddarparu lefel o incwm ymddeol digonol;
- gweithwyr ddim mewn gwasanaeth cyhoeddus i beidio â chael mynediad i gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol;
- cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus i gymryd mwy o ystyriaeth o bensiynau gwasanaeth cyhoeddus wrth ddarparu pecynnau cyflogaeth ac wrth ddylunio strategaethau gweithlu;
- cyflogwyr i geisio uchafu cyfranogiad cynlluniau pan yn briodol
- annog ymddeol hyblyg a diddymu'r gostegiad, yn ei ffurf bresennol, ar y rhai sydd yn dychwelyd i weithio
- trefn yn cael ei sefydlu i sicrhau arolygiaeth annibynnol o'r drefn lywodraethol, gweinyddiaeth a bod tryloywder data yng nghynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus;

- y Swyddfa Cyfrifoldebau Cyllidol i gyhoeddi dadansoddiadau rheolaidd o effaith gyllidol tymor hir cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus; a
- gweithredu safonau meincnodau ar weinyddiaeth cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus.

Disgwyliad y CALIPGC yw bod y cynlluniau newydd yn cael eu cyflwyno cyn Mai 2015, sef diwedd y Senedd bresennol. Derbyniodd y Llywodraeth argymhellion y CALIPGC yn yr Adroddiad Gyllideb *"fel sail i ymgynghori a gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus, undebau llafur a buddgyfranogwyr eraill"* gan gyhoeddi ei argymelliadau yn yr hydref.

**Cyfyngu ar Ryddhad Treth ar gyfraniad pensiwn ar gyfer enillwyr uchel**
Mater arall yn effeithio ar bensiynau ac wedi' gynnwys yn araith y Canghellor oedd ei fwriad i ddiddymu'r cyfyngiadau ryddhad treth ar gyfraniadau pensiwn wedi'u cynnwys yn Neddf Cyllid 2010 ac i dapro i ffwrdd y lefel uchaf o ryddhad treth a ganiateir ar enillion dros £150k.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad dechreuodd y Llywodraeth edrych ar ostwng yn sylweddol y lwfans blynyddol (LB) o £255k i ystod o gwmpas £30k i £40k. Yn dilyn ymgynghoriad pellach a ddechreuodd yng Ngorffennaf 2010 cyhoeddodd Trysorlys EM ddogfennau ar y 14eg Hydref yn rhestru'r prif bwyntiau canlynol:

- Bod LB ar gyfer cynilo mewn pensiwn treth freintiedig i fod yn £50k o Ebrill 2011 (gostwng o £255k yn 2010-11), ond yn uwch na beth awgrymwyd yn wreiddiol.

- Doedd dim cynnig mynegeio lefel y LB yn ystod y cyfnod wedi' ddarogan sef hyd 2015-16. Bydd y Llywodraeth ystyried y dewisiadau ar gyfer mynegeio'r lefel LB i ddilyn hyn.

- Bod rhyddhad treth ar gael ar raddfa ffiniol yr unigolyn.

- Bydd cost y dreth am ragori'r LB yn un teilwredig, er mwyn adennill y raddfa lawn o ryddhad treth ffiniol yr elwodd yr unigolyn ohono.

- Yn unol â chyngor Actiwari'r Llywodraeth cyfrifir cyfraniad tybiedig i gynlluniau Buddion Diffiniedig fel y CPLIL drwy ddefnyddio ffactor unffurf o 16, sydd yn golygu bod £1,000 o gynnydd blynyddol mewn gwerth budd pensiwn yn cael ei ystyried fel £16,000.

- Ar ddiwedd y Cyfnod Mewnbynnu Pensiwn presennol (diweddu 31 Mawrth yn y CPLIL) bydd buddion pensiwn cronedig aelodau **cyfredol** y flwyddyn flaenorol yn cael eu hadbrisio yn unol â'r MPD (CPI) (yn ôl mesuriad y Medi blaenorol)

- Bydd unrhyw groniadau negyddol yn cael ei drin fel sero.

- Ni weithredir prawf LB mewn blwyddyn marwolaeth, nac ychwaith mewn achos lle y telir cyfandaliadau ar ganfod salwch difrifol (terfynol). Yn ogystal mae'r Llywodraeth yn cydnabod gall rhai achosion o salwch o bwys y byddai'n amhriodol gweithredu'r LB.

- Ni chaniateir eithriadau mewn achosion o ddiswyddo, deallir bod hyn i olygu bod unrhyw ychwanegiadau buddion **pensiwn** a ganiateir gan gyflogwr ar ddiswyddo, fel megis

dyfarndalu aelodaeth ychwanegol neu bensiwn ychwanegol hyd at £5,000 y flwyddyn, yn dod yn rhan o'r asesiad ar gyfer y prawf LB.

- Lle bydd unigolion yn rhagori'r LB mewn unrhyw flwyddyn, gall lwfansau nas defnyddir o hyd at dair blynedd flaenorol gael eu gosod yn erbyn y gormodedd cynilion pensiwn. Bydd y cario drosodd ar gael ar sail LB tybiaethol o £50k yn y blynyddoedd treth 2008-09, 2009-10 a 2010-11.

- Bydd rhai unigolion yn – oherwydd hwb sylweddol yn eu hawliau pensiwn mewn unrhyw flwyddyn benodol - ennyn cost anystywallt o'u hincwm cyfredol y flwyddyn wrth ragori'r LB. Gan hynny, mae'r Llywodraeth yn ystyried opsiynau i dalu'r gost allan o hawliau pensiwn yn lle incwm cyfredol sydd yn adlewyrchu'r pwynt mae'r codiad sylweddol hynny yng nghyfoeth y pensiwn sydd yn gyfrifol am y gost.

- Bydd yn rhaid i gyflogwyr ddarparu gwybodaeth tal pensiynadwy, buddion a gwasanaeth gweithwyr i'r cynlluniau pensiwn erbyn y 6ed o Orffennaf yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth.

- Yn y flwyddyn gyntaf yn unig, caniateir cyflogwyr a chynlluniau pensiwn 12 mis ychwanegol h.y. tan 6ed o Orffennaf 2013 neu 6ed Hydref 2013 yn ôl eu trefn, i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol

Yn olaf o Ebrill 2012, bydd y Llywodraeth yn gostwng y Lwfans Gydol Oes ar gyfer cynilion pensiwn treth-freintiedig o'r £1.8m presennol i £1.5m

### Datganiadau Buddion Blynyddol (ABS)

Parheir y tîm cyfathrebu i chwarae rhan bwysig yn y grŵp "Cymru Gyfan" a chyfrannodd ar ddiweddaru'r Datganiad Buddion Blynyddol cyfunol ar gyfer 2010. Ymysg y pecynnau yn y datganiad oedd gwerth buddion wedi'u cronni i 31 Mawrth 2010, buddion arfaethedig i oed 65 ac eglurhad am y dewis i drawsnewid pensiwn am lwm swm sydd ar gael ynghyd ac enghreifftiau gweithiedig ar sail yr uchafswm a ganiateir o dan reolau CThEM. Yn ogystal fe ddarparwyd gwerth buddion marwolaeth yn seiliedig ar 31 Mawrth 2010 a manylion cyfredol ac estynedig o Fuddion y Wladwriaeth.

Bwriad cynnwys yr holl wybodaeth yma yw galluogi aelodau gael darlun mwy clir o'u hincwm arfaethedig ar ymddeol a chyfle i gymryd y camau i'w cynyddu cyn yn rhy hwyr. Wedi dweud hyn, bydd newidiadau i gynlluniau sector gyhoeddus a chynllun y wladwriaeth ar hyn o bryd yn newid yr hyn a ddangosir beth bynnag. Anfonwyd y datganiadau i aelodau Cyfredol a Gohiriedig y cynllun yn Nhachwedd 2010.

### Prisiant y Gronfa

Bu cronfeydd pensiwn llywodraeth leol Lloegr a Chymru drwy brisiant teirblynyddol ar 31 Mawrth 2010. Cynhaliwyd fforwm ar gyfer cyflogwyr yn Siambr Dafydd Orwig ar 6ed o Ragfyr 2010 gyda'r Actiwari yn bresennol i amlinellu methodoleg y prisiant a'r broses a thybiaethau a gymerwyd i gyrraedd graddfeydd cyflogwyr newydd. Gwelir canlyniadau'r prisiant yn Adroddiad y Prisiant 2010 a ddosbarthwyd i'r cyflogwyr ac sydd ar gael i lawr lwytho o safle we'r Gronfa.

Mae pryderon cynyddol ynglŷn â chyflogwyr sydd yn cyflwyno'u hadroddiadau cyfraniadau diwedd flwyddyn yn hwyr. Fel un o agweddau mwyaf pwysig gweinyddiaeth y cynllun a phrif yrrwr y broses o ddarparu data i'r Actiwari ar gyfer y prisiant ac adroddiadau SCR19/SAA 17, yn ogystal â gwaith yr uned o ddarparu datganiadau buddion blynyddol ac i ymateb i alw cynyddol y Llywodraeth am ystadegau a chostau'r cynllun, mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cyflwyno yn amserol. Gofynnir yn garedig i gyflogwyr roi adnoddau digonol a mwy o weithredu yn fwy brys i gynhyrchu ac anfon yr wybodaeth yma yn gywir ac yn amserol.

**Materion gweinyddol eraill**

Cyflwynwyd Rheoliadau (Amrywiol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2010 oedd yn cynnwys nifer o welliannau technegol ac eglurhaol o flaen y Senedd ar y 25 o Awst 2010. Roeddynt yn bennaf berthnasol i ddarpariaethau salwch tair rheng, gyda pheth elfennau yn ymwneud a buddion marwolaeth sydd yn daladwy i ddibynyddion. Roeddynt hefyd yn cynnwys gwelliant i alluogi aelodau cyfredol y cynllun yn Lloegr a Chymru i ddewis uno cyfnodau gwahanol o aelodaeth all fod ganddynt gyda'u haelodaeth bresennol

Unwaith yn rhagor bu'r broses a ffactorau ar gyfer gweinyddu trosglwyddiadau hawliau pensiwn, rhywbeth a grybwyllwyd yn adroddiad y llynedd fel bod wedi newid yn aml yn ystod y flwyddyn, yn destun diwygio pellach oherwydd newid y mesuriad mynegai o MPM(RPI) i MPD (CPI). Cyfrifir ffactorau trosglwyddo fel eu bod yn cymryd ystyriaeth o werth y buddion canlyniadol felly, pan mae cynnydd neu ostyngiad yn werth y buddion hynny, fel newid y mynegai o MPM i MPD, mae'n ofynnol i hyn gael ei adlewyrchu yn y ffactorau.

**Cyfathrebu'r Cynllun**

Cynigwyd 105 sesiynau syrjeri gan y tîm yn ystod y flwyddyn a rhain hyd a lled ardal ddaearyddol y Gronfa. Buont yn boblogaidd iawn gydag aelodau a oedd yn bryderus ynglyn a sicrwydd swyddi a'r rhai gyda swyddi yn trosglwyddo o dan TUPE. Bu'r tîm, fel rhan o Grwp Cyfathrebu Cymru, yn diweddaru fersiynau byr o lawlyfr gweithwyr a chynghorwyr yn y cynllun a chynhyrchu mwy o daflenni pynciol. Anogir cyflogwyr i gysylltu gyda'r adran bensiynau wrth ystyried unrhyw agwedd o allanoli, mynd drwy arfarnu swyddi neu os mynd drwy ymarferiad diswyddo / ymddeol cynnar. Mae'r tîm yn barod a bodlon mynychu cyfarfodydd i gynnig arweiniad a gwybodaeth i aelodau pryderus

Dros y ddwy flynedd olaf trefnwyd cyfarfodydd gweddol anffurfiol ddwywaith y flwyddyn i drafod materion cyffredinol ac i gyfleu gwybodaeth am ddigwyddiadau a'r newidiadau ar ddod. Profodd y cyfarfodydd hyn yn boblogaidd gyda'r cyflogwyr hynny a'u mynychodd. Trefnir y set nesaf yn yr Hydref gyda'r gwahoddiadau yn mynd allan o flaen llaw. Anogaf gyflogwyr i fynychu'r cyfarfodydd hyn gan iddynt gynhyrchu adborth gwerthfawr i'r uned weinyddol yn yr un modd ac y maent yn cyfleu gwybodaeth a datblygiadau i chi. Fel sydd eisoes wedi'i grybwyll rydym ar drothwy cyfnod o newid rhyfeddol ym maes y CPLIL a'r byd ehangach o ddarpariaeth buddion y wladwriaeth.

**Mesur Perfformiad**

Mesurir elfen o weithgareddau craidd yr uned fel rhan o fonitro perfformiad y Cyngor. Penderfynwyd lleihau targedau CD9.05 a CD9.06 o gyfartaledd o ddeuddeg niwrnod gwaith i ddeg. Mae'r ddau darged hwn yn ymwneud a'r gwaith gweinyddol o brosesu buddion marwolaeth a dibynyddion.

Wrth gymharu canlyniadau ben i ben 2009/10 gyda'r rhai am 2010/11 gwelir bod niferoedd y trosglwyddiadau wedi lleihau tra bod cynnydd yn y nifer o amcangyfrifon ymddeol ag ymddeoliadau gwirioneddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r hinsawdd ariannol bresennol lle mae llai o aelodau newydd a mwy o ymadawyr

| | | | 2009/2010 | | 2010/2011 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYF** | **Gweithgareddau Craidd** | **Targed** | **Nifer yr Achosion** | **Cyfartaledd Dyddiadau a Gymerwyd** | **Nifer yr Achosion** | **Cyfartaledd Dyddiadau a Gymerwyd** |
| D9.01 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr dyfynnu trosglwyddiad i mewn | 40 diwrnod | 190 | 22.3 | 103 | 14.8 |
| D9.02 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr dyfynnu trosglwyddiad allan | 40 diwrnod | 93 | 26.7 | 46 | 34.4 |
| D9.03 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion - amcan | 10 diwrnod | 1,400 | 7.8 | 1,587 | 7.5 |
| D9.04 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion – gwir werth | 10 diwrnod | 369 | 4.5 | 474 | 4.5 |
| D9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau a gymerwyd i gydnabod marwolaeth aelod / gweithredol/ gohiriedig/ pensiynwr | 12 diwrnod 2009/10 10 diwrnod 2010/11 | 23 | 5.5 | 22 | 6.6 |
| D9.06 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion dibynyddion | 12 diwrnod 2009/10 10 diwrnod 2010/11 | 178 | 6.7 | 174 | 6.8 |
| D9.07 | Prosesu a thalu pensiynau misol ar amser | 100% | *Oddeutu 7,100 yn fisol. | Wedi cyrraedd targed 100%. | *Oddeutu 7,350 yn fisol. | Wedi cyrraedd targed 100%. |
| D9.08 | Nifer o achosion angen ail daliad oherwydd camgymeriad yn yr adain. | Dim mwy na 8 achos yn ystod y flwyddyn. | 0 | N/A | 0 | N/A |
| D9.09 | Nifer y syrjeris sydd i'w cynnig i gyflogwyr. | 90 syrjeri | 122 | N/A | 105 | N/A |

***Mae'r nifer o bensiynau misol a delir yn cynnwys oddeutu 1000 o gyn athrawon yn derbyn iawndal ymddeol cynnar***



Gareth Jones
**Rheolwr Gweithrediadau Pensiynau**

## 2.4 Prisiad Actiwaraidd

Yn ystod 2010/11, cwblhawyd prisiad actiwaraidd teir blynyddol 31 Mawrth 2010. Arhosodd y lefel gyllido ar 84%, yr un lefel a'r prisiad cynt ar 31 Mawrth 2007, ac yn well na lefel cyllido cyfartal cronfeydd pensiwn Cymru sef 76%. Er hynny, mae'r diffyg wedi codi o £160m ar 31 Mawrth 2007 i £183m ar 31 Mawrth 2010. Mae'r dirywiad yn adlewyrchu'r amgylchiadau niweidiol sydd wedi wynebu'r Gronfa ers y prisiad blaenorol. Yn benodol, roedd y dychweliadau buddsoddi yn ystod 2008/09 (sef y flwyddyn gyntaf o'r tair blynedd i 31 Mawrth 2010) yn sylweddol llai na ragwelwyd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y problemau ariannol byd-eang a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn.

Fel gydag unrhyw ganlyniadau prisiad cronfa bensiwn, ciplun ar amser penodol yw'r prisiad teir blynyddol hon. Yn erbyn y sefyllfa a oedd i'w gweld ar waelod y dirywiad ariannol yn 2008/09, mae rheswm da dros weld y canlyniadau fel rhai positif. Adferodd dychweliadau buddsoddi yn dda tuag at ddiwedd y cyfnod prisio ac wedi parhau i wella yn ystod 2010/11. Tra cadw at dybiaethau actiwaraidd darbodus, mae'r cronfa Gwynedd wedi llwyddo i gadw'r effaith ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr at gynnydd rhesymol, sydd yn helpu cadw'r CPLIL yn fforddiadwy, hyfyw a theg i drethdalwyr.

Dangosir manylion pellach yn rhan 4.2 isod.

## 2.5 Datganiad Strategaeth Cyllido


Adolygwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ystod 2010/11 er mwyn adlewyrchu'r Prisiad Actiwaraidd ar 31 Mawrth 2010 ac ymgynghorwyd gyda'r cyflogwyr sydd yn rhan o'r Gronfa yn ystod y broses hon. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn gosod strategaeth benodol y Gronfa er mwyn adnabod sut i gwrdd ag ymrwymiadau pensiwn y cyflogwyr wrth fynd ymlaen. Mae'n cynnwys cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Mae manylion pellach yn rhan 4.8 isod a chynhwysir copi o'r Strategaeth Cyllido yn rhan 9 o'r adroddiad hon.



Dafydd L. Edwards
**Pennaeth Cyllid**

Mae'r graff isod yn dangos y newid yn aelodaeth y Gronfa dros y 18 mlynedd diwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiynwyr wedi cynyddu yn raddol o 3,976 yn 1994 i 6,542 yn 2011, tra bod nifer y cyfranwyr bron wedi treblu o 5,343 yn 1994 i 14,450 yn 2011.




Mae'r tabl isod yn rhoi'r ystadegau aelodaeth:

| **31 Mawrth 2010** | **Disgrifiad** | **31 Mawrth 2011** |
|---:|---|---:|
| 14,742 | Cyfranwyr | 14,450 |
| 6,400 | Pensiynwyr Gohiriedig | 7,054 |
| 6,211 | Pensiynau a Delir | 6,542 |
| 1,210 | Budd-dal heb eu hawlio | 1,185 |
| **28,563** | **Cyfanswm Aelodaeth** | **29,231** |

# 7. Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa

| **Cyrff ar yr Atodlen** |
|---|
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyngor Dinas Bangor |
| Cyngor Tref Llangefni |
| Cyngor Tref Biwmares |
| Cyngor Tref Caernarfon |
| Cyngor Tref Caergybi |
| Cyngor Tref Llandudno |
| Coleg Menai |
| Parc Cenedlaethol Eryri |
| Coleg Llandrillo |
| Ysgol Emrys ap Iwan |
| Ysgol Uwchradd Eirias |
| Ysgol Bryn Eilian |
| Ysgol Pen y Bryn |
| Cyngor Tref Tywyn |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni |
| Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel |
| Cyngor Tref Abergele |
| Cyngor Tref Bae Colwyn |
| Cyngor Tref Ffestiniog |
| Ymddiriedolaeth Gerddi Plas Tan y Bwlch |

| **Cyrff a Ganiateir** |
|---|
| Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru |
| Cydbwyllgor Claddu Caergybi |
| CAG Coleg Harlech |
| Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin |
| Cwmni Cynnal |
| Cwmni'r Fran Wen |
| Gwasanaeth Gwirfoddol Conwy |
| Medrwn Môn |
| Mantell Gwynedd |
| Canolfan Cynghori Ynys Môn |
| Menter Môn |
| Canolfan Cynghori Conwy |
| CAIS |
| Cartrefi Conwy |
| Eden Food Services |
| Cartrefi Cymunedol Gwynedd |

| **Cyflogwyr heb ddim Cyfranwyr** |
|---|
| Coleg Normal |
| Coleg Santes Fair |
| Pwyllgor Llys Ynadon Gogledd Cymru |
| Panel Gwerthuso |
| Cyngor Cymuned Felinheli |
| Hen Awdurdod Iechyd |
| Hen Awdurdod Dwr |
| Hen Bwyllgor Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru |
| Cyngor Cymuned Llandwrog |
| Coleg Gwynedd |
| Coleg Pencraig |

| **Cronfeydd Caeedig** |
|---|
| Cyngor Sir Gwynedd |
| Cwmni Gwastraff Môn/Arfon |
| Theatr Gwynedd |
| Theatr Harlech |

## 8. Datganiad o Gyfrifon 2010-2011

**Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2010-2011**

| 2010 £'000 | Cyfrifon y Gronfa Bensiwn am y Flwyddyn sy'n Diweddu 31 Mawrth | 2011 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Cyfraniadau -** | |
| 13,813 | Gweithwyr - Staff | 14,287 |
| 35 | - Aelodau | 36 |
| 45,388 | Cyflogwyr - Staff | 46,033 |
| 121 | - Aelodau | 125 |
| 0 | - Ariannu Diffyg | 4 |
| 60 | Llog ar Gyfraniadau Gohiriedig | 49 |
| 2 | Incwm ar Gyfrifo Ysgariad | 1 |
| 5,447 | Trosglwyddiadau o Gynlluniau Eraill | 1,440 |
| 279 | Prynu Gwasanaeth Ychwanegol a.y.y.b. | 194 |
| **65,145** | **Cyfanswm Cyfraniadau Dderbyniwyd** | **62,169** |
| | **Buddion Taladwy -** | |
| (26,029) | Pensiynau | (27,177) |
| (6,658) | Lwmp Swm | (10,198) |
| (437) | Budd-daliadau ar Farwolaeth | (945) |
| (14) | Ymadawiadau | (26) |
| (4,645) | Trosglwyddiadau i Gynlluniau Eraill | (2,635) |
| (907) | Costau Gweinyddol (Nodyn 11) | (1,061) |
| **(38,690)** | **Cyfanswm Buddion Dalwyd** | **(42,042)** |
| **26,455** | **Ychwanegiadau Net o Ddelio gydag Aelodau** | **20,127** |

| 2010 £'000 | Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau fel ar 31 Mawrth | 2011 £'000 |
|---:|---|---:|
| 5,105 | Incwm Buddsoddi (Nodyn 9) | 6,745 |
| 242,615 | Newid yng Ngwerth Buddsoddiadau ar y Farchnad | 70,763 |
| (2,777) | Costau Rheoli Buddsoddiadau (Nodyn 12) | (3,247) |
| **244,943** | **Enillion/(Colledion) Net ar Fuddsoddiadau** | **74,261** |

| 2010 £'000 | Cynnydd / (Gostyngiad) Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn | 2011 £'000 |
|---:|---|---:|
| 26,455 | Ychwanegiadau Net o Ddelio gydag Aelodau | 20,127 |
| 244,943 | Enillion/(Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 74,261 |
| **271,398** | **Cynnydd/(Gostyngiad) Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn** | **94,388** |

| 2010 £'000 | Asedau Net y Gronfa | 2011 £'000 |
|---:|---|---:|
| 657,992 | Ar 1af Ebrill | 929,390 |
| 271,398 | Cynnydd/(Gostyngiad) Net yn y Gronfa Yn Ystod y Flwyddyn | 94,388 |
| **929,390** | **Fel ar 31 Mawrth** | **1,023,778** |

| 2009 | 2010 | Datganiad o Asedion Net | 2011 |
|---:|---:|---|---:|

## 4. Sefyllfa Actiwaraidd

Mae Actiwari y Gronfa wedi cario allan eu Prisiant Actiwaraidd ar 31ain Mawrth 2010. Dangosodd y canlyniadau ddiffyg o £183 miliwn. Ceir mwy o fanylion yn Rhan 4.2, ar dudalen 14-15.

### Gwerth Actiwaraidd o Buddiannau a Addewir

Roedd gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawir ar 31 Mawrth 2011 yn £1,197m (£1,289m ar 31 Mawrth 2010). Mae'r holl fuddiannau wedi eu breinio. Rhwymedigaeth buddiannau a diffinnir o dan SCR19 yw'r gwerth hon a gyfrifwyd gan Hymans Robertson gan ddefnyddio'r prisiant actiwarïaid ar 31 Mawrth 2010 a'r tybiaethau o'r adroddiadau SCR19 a SAA17 i'r cyflogwyr unigol y Gronfa Bensiwn er mwyn cyfrifo'r swm.

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwarïaid drwy ddefnyddio'r dull taflunio uned, sef amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy mewn blynyddoedd yn ddibynnol ar dybiaethau am nifer marwolaethau, lefel cyflogau a.y.b. Dyma'r prif dybiaethau maent wedi eu defnyddio yn eu cyfrifiad:-

| 2009/10 | | 2010/11 |
|---|---|---|
| | **Tybiaethau Marwolaeth** | |
| | Hyd oes pensiynwyr cyfredol am 65 oed | |
| 20.8 blwyddyn | Dynion | 20.5 blwyddyn |
| 24.1 blwyddyn | Merched | 23.0 blwyddyn |
| | Hyd oes pensiynwyr y dyfodol pan yn 65 oed | |
| 22.3 blwyddyn | Dynion | 23.3 blwyddyn |
| 25.7 blwyddyn | Merched | 25.6 blwyddyn |
| | **Tybiaethau Ariannol** | |
| 3.8% | Cyfradd Chwyddiant | 2.8% |
| 5.3% | Cyfradd Chwyddiant Cyflogau | 5.1% |
| 3.8% | Cyfradd Chwyddiant Pensiynau | 2.8% |
| 5.5% | Cyfradd ar gyfer gostwng ymrwymiadau'r cynllun | 5.5% |
| | Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol | |
| 50% | am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50% |
| 75% | am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75% |

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn wedi ei seilio ar y penderfyniad i gynyddu pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn ôl Mynegai Pris Defnyddwyr yn hytrach na Mynegai Pris Manwerthu. Ar hyn o bryd, mae'r penderfyniad gerbron y llysoedd mewn trefniadau adolygu barnwrol. Mae'r Llywodraeth yn amddiffyn yr achos, ac felly ni addaswyd y nodyn hwn. Nid yw goblygiadau ariannol pe bai'r adolygiad yn dyfarnu yn erbyn y Llywodraeth wedi eu hasesu. Mae'r mater hon wedi cael ei adnabod fel Digwyddiad Ôl-fantolen fel y disgrifir yn Nodyn 21 o'r Nodiadau i'r Cyfrifon.

## 5. Cyfraniadau Derbyniadwy

Isod rhoddir dadansoddiad o'r holl gyfraniadau derbyniadwy gan y gwahanol gyrff:

| 2009/10 £'000 | | 2010/11 £'000 |
|---|---|---|
| 22,361 | Cyngor Gwynedd** | 20,766 |
| 34,164 | Cyrff ar yr Atodlen** | 35,897 |
| 3,023 | Cyrff a Ganiateir | 4,007 |
| 88 | Cyflogwyr heb Gyfranwyr | 0 |
| 0 | Cronfa Gaeedig* | 9 |
| **59,636** | **Cyfanswm** | **60,679** |

*Cronfa Gaeedig - Mae'r rhain yn gyfraniadau a dderbyniwyd gan Gwmni Gwastraff Môn-Arfon a Theatr Gwynedd yn ystod y flwyddyn. Roeddynt yn gyrff a ganiateir ond maent bellach yn gronfeydd caeedig.

**Yn ystod 2010/11 trosglwyddodd Cyngor Gwynedd y Tai Cyngor i Gartrefi Cymunedol Gwynedd gyda'r canlyniad bod cyfraniadau Gyngor Gwynedd Council wedi lleihau a chyfraniadau Cyrff a Ganiateir wedi codi.

## 6. Buddion Taladwy

Isod rhoddir dadansoddiad o'r budd-daliadau taladwy i wahanol gyrff:

| 2009/10 £'000 | | 2010/11 £'000 |
|---|---|---|
| 8,491 | Cyngor Gwynedd | 9,707 |
| 11,976 | Cyrff ar yr Atodlen | 15,838 |
| 847 | Cyrff a Ganiateir | 1,198 |
| 514 | Cyflogwyr heb Gyfranwyr | 583 |
| 11,296 | Cronfa Gaeedig | 10,994 |
| **33,124** | **Cyfanswm** | **38,320** |

## 7. Gwerth Marchnad y Buddsoddiadau

Isod fe roddir gwerth marchnad yr asedau ar ddyddiad y fantolen:

| | Swm £'000 | Black Rock % | Capital % | Fidelity % | Lothbury % | Partners % | UBS % | Insight % | *Gwy % | Swm % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llog Sefydlog** | | | | | | | | | | |
| Dychweliad Absoliwt | 141,937 | - | - | - | - | - | - | 100.00 | - | 100.00 |
| **Cyfranddaliadau:** | | | | | | | | | | |
| Y DU a Ddyfynnir | 15,152 | - | 100.00 | - | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Tramor a Ddyfynnir | 141,265 | - | 100.00 | - | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Tramor heb eu Dyfynnu | 569 | - | 100.00 | - | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Ecwiti Preifat | 50,967 | - | - | - | - | 100.00 | - | - | - | 100.00 |
| **Offerynnau Buddsoddi Cydgyfrannog:** | | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaethau Uned y DU a Ddyfynnir | 264,246 | 100.00 | - | - | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Mentrau'r DU heb eu Dyfynnu | 1 | - | - | - | - | - | 100.00 | - | - | 100.00 |
| Ymddiriedolaethau Uned Tramor | 132,270 | 56.30 | 24.41 | 19.29 | - | - | - | - | - | 100.00 |
| Ymddiriedolaethau Uned Byd Eang (sy'n cynnwys y DU) | 166,179 | - | - | 100.00 | - | - | - | - | - | 100.00 |
| **Ymddiriedolaethau Uned Eiddo** | 89,207 | 6.71 | - | - | 20.98 | - | 72.31 | - | - | 100.00 |
| **Contractau Deilliad** | | | | | | | | | | |
| Ased Deilliad | 3,453 | - | - | - | - | - | 100.00 | - | - | 100.00 |
| Diffyg Deilliad | (3,625) | - | - | - | - | - | (100.00) | - | - | 100.00 |
| **Arian Parod â Chyfalaf Gweithiol** | 22,157 | - | 33.41 | - | - | - | 12.90 | 0.02 | 53.67 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **1,023,778** | **33.67** | **19.21** | **18.72** | **1.83** | **4.98** | **6.56** | **13.87** | **1.16** | **100.00** |

* Gwy – Gwynedd

costau swyddfeydd yn ôl arwynebedd y lloriau. Roedd y costau gweinyddol a dalwyd i Gyngor Gwynedd yn 2010/11 yn £906,391 (2009/10: £783,870).

### 12. Costau Rheoli Buddsoddiadau

Mae costau rheoli buddsoddiadau'r Gronfa fel a ganlyn:

| 2009/10 £'000 | | 2010/11 £'000 |
|---:|---|---:|
| 225 | BlackRock | 197 |
| 581 | Capital International | 610 |
| 300 | Fidelity * | 426 |
| 0 | Insight ** | 599 |
| 140 | Legal & General *** | 25 |
| 806 | Partners Group | 938 |
| 549 | UBS Global Asset Management | 344 |
| 1 | JP Morgan | 1 |
| 40 | Cwmni'r Northern Trust | 40 |
| 122 | Hymans Robertson | 54 |
| 13 | Cwmni'r WM | 13 |
| **2,777** | **Cyfanswm** | **3,247** |

* Cychwynodd Fidelity ar eu gwaith ym Mehefin 2009.

** Cychwynodd Insight ar eu gwaith yn Ebrill 2010.

*** Gorffennodd Legal and General ar eu gwaith ym Mai 2010.

### 13. Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn y Datganiad Asedion Net ar sail eu pris ar y farchnad. Roedd cost yr asedion net ar 31ain Mawrth 2011 yn £828m (31ain Mawrth 2010: £785m); a gwnaeth trafodion buddsoddi dros y flwyddyn elw o £15.8m (2009/2010: elw o £15.8m).

### 14. Dyledwyr Amrywiol

Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y cyfrifon ar gyfer dyledwyr, fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2009 £'000 | 31 Mawrth 2010 £'000 | | 31 Mawrth 2011 £'000 |
|---:|---:|---|---:|
| 4,396 | 5,464 | Cyfraniadau i'w Derbyn | 3,897 |
| 542 | 695 | Dyledwyr Mewnol | 171 |
| 270 | 288 | Biliau Dyledwyr | 307 |
| 535 | 551 | Incwm Difidend Net Dyledus | 790 |
| 437 | 470 | Treth y DU | 236 |
| 2 | 3 | TAW | 2 |
| **6,182** | **7,471** | **Cyfanswm** | **5,403** |

| | | |
|---|---|---|
| **P.G. Emerging Markets 2011** | **7,000** | **7,000** |

**18. Natur a Maint y Risgiau sydd yn Codi o Offerynau Ariannol**

Mae gweithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg Credyd** - y posibilrwydd y byddai partïon eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Gronfa Bensiwn.

- **Risg Hylifedd** - y posibilrwydd na fyddai gan y Gronfa Bensiwn arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymiadau i wneud taliadau.

- **Risg Marchnad** - y posibilrwydd y byddai colled ariannol yn codi i'r Gronfa Bensiwn o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Mae rhaglen rheolaeth risg cyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ansefydlogrwydd y marchnadoedd ariannol ac yn ceisio lleihau'r effeithiau gwrthwynebus posib ar yr adnoddau i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido a gynhyrchir gan yr Awdurdod Gweinyddu yn datgan sut y rheolir hylifedd a risg mewn perthynas i'r ymrwymiadau.

Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cyhoeddi'r Datganiad Strategaeth Cyllido hon trwy gymryd trosolwg o lefel y risg cynhenid yn y polisi buddsoddi a osodir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddir o dan Reol 12 o'r Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulations 2009 (the Investment Regulations) a'r polisi cyllido a gosodir yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn parhau i adolygu'r ddwy ddogfen er mwyn sicrhau bod y proffil risg cyffredinol dal yn briodol.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau eraill, ynghyd â datguddiadau credyd i aelodau a chyflogwyr y Gronfa Bensiwn.

Ar hyn o bryd nid oes asesiad credyd ar gyfer cyflogwyr yn y gronfa na gosod terfyn credyd unigol iddynt. Mae risg o beidio gallu casglu cyfraniadau gan gyflogwyr heb unrhyw aelodau sydd yn cyfrannu (e.e. risg yn gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fach o aelodau yn cyfrannu sydd yn lleihau) ac felly mae'r Awdurdod Gweinyddu yn monitro symudiadau aelodaeth yn flynyddol.

Mae angen i gyflogwyr newydd gytuno i ddarpariaeth bond neu gael gwarant er mwyn lleihau'r risg o golled ariannol i'r gronfa yn y dyfodol os nad yw'r cyflogwr yn gallu cwrdd â'i ymrwymiad pensiwn ar ddarfyddiad. Ar hyn o bryd mae unrhyw ymrwymiadau sydd yn disgyn ar y gronfa oherwydd ddarfyddiad yn cael eu rhannu dros gyflogwyr eraill y gronfa. Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn gwarantu unrhyw ymrwymiadau sydd yn disgyn ar y gronfa oherwydd ddarfyddiad. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y cyfnodau adennill a'r symiau yn cael eu cadw ar lefel hylaw i gyflogwyr llai.

Mae'r risg hon wedi codi yn dilyn barn gyfreithiol ddiweddar sydd o bosib yn dangos nad yw cyflogwyr heb aelodau sydd yn cyfrannu yn gallu bod yn gyfrifol am gyfraniadau o dan y Rheoliadau Gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw'r dyfarniad hon yn effeithio'r gallu i gasglu cyfraniadau yn dilyn gwerthusiad terfynu o dan Reol 38(2). Gellir cyfarwyddo'r Actiwari i ystyried

adolygu'r dystysgrif cyfraddau ac addasiadau er mwyn codi cyfraniadau'r cyflogwr o dan Reol 38 o'r Rheoliadau (Gweinyddu) y CPLIL 2008 rhwng gwerthusiadau teirblynyddol.

Nid yw telerau unrhyw asedau ariannol wedi cael eu hail-negodi a fyddai fel arall bod yn orddyledus neu wedi eu hamharu. Mae'r Gronfa Bensiwn wedi dioddef amhariad mewn buddsoddiad yn Heritable Bank a chynhwysir y manylion yn Nodyn 9 uchod.
Ni delir unrhyw cyfochrog fel sicrwydd ar gyfer asedau ariannol. Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn arfer caniatáu credyd i'w gwsmeriaid.

Mae crynodiad o'r arian a delir gan y rheolwyr buddsoddi fel y ganlyn:

| Rheolwr Buddsoddi | Canran o'r Portffolio |
|---|---|
| BlackRock | 32% |
| Capital International | 19% |
| Fidelity | 19% |
| Insight | 15% |
| Partners Group | 5% |
| UBS | 7% |

Mae'r holl fuddsoddiadau gan y rheolwyr buddsoddi yn cael eu dal mewn enw'r Gronfa Bensiwn ac felly os yw'r rheolwr buddsoddi yn methu nid yw'r asedau yn cael eu cyfri fel eu hasedau. Mae angen i bob rheolwr cwrdd â meini prawf graddio a osodir gan ymgynghorwyr y Gronfa.

**Risg Hylifedd**

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddu system llif arian cynhwysfawr sydd yn ceisio sicrhau bod arian ar gael yn ôl yr angen. Yn ogystal mae cyfraniadau cyfredol a derbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn rhagori'r buddiannau i'w talu yn sylweddol. Buddsoddir arian dros ben a ni chaniateir ad-dalu arian i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn gosod cyfraniadau er mwyn sicrhau bydd modd cwrdd â'r holl ymrwymiadau yn y dyfodol.

Mae'r holl gredydwyr masnachol ac eraill yn ddyledus o fewn flwyddyn.

Nid oes cyfyngiad a maint y gellir dal mewn cyfrif banc y Gronfa Bensiwn. Dylai'r symiau a delir yn y cyfrif hwn yn cwrdd â'r anghenion hylifedd arferol y gronfa. Buddsoddir unrhyw warged dros dro gan yr Awdurdod Gweinyddu er mwyn ennill incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir gwarged parhaol yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Mae buddsoddiadau'r gronfa yn bennaf rhai hylif. Er gallai unrhyw ddatodiad achosi colled ariannol. Er bod ecwiti preifat yn gallu cael ei gwerthu ar farchnad eilaidd byddai angen prynwr bodlon ac felly mae'n cael eu dosbarthu fel anhylif. Mae natur tymor hir buddsoddiadau ecwiti preifat yn awgrymu a byddai gwerthiant sydyn yn debyg i gynhyrchu dychweliad anffafriol. Ond 5% o'r holl asedau'r gronfa yw ecwiti preifat.

**Risg Farchnad**

Risg Cyfraddau Llog

Er nad oes gan y Gronfa Bensiwn benthyciadau mae'r Gronfa yn agored i risgiau sylweddol oherwydd symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith cymhleth ar y Gronfa Bensiwn. Er enghraifft, byddai codiad mewn cyfraddau llog yn cael yr effaith canlynol:

- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu i'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn codi.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Fel rhan o'r prisiad teirblynyddol ac yn unol â'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi bydd yr Actiwari ond yn rhagweld dychweliadau tymor hir ar sail cymharol bwyllog er mwyn lleihau'r risg o dan-perfformiad. Dadansoddir cynnydd mewn prisiadau teirblynyddol i bob cyflogwr. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gofyn am ddiweddariad cyllido yn flynyddol dros y cyfnod rhwng cwblhau'r adroddiad prisio a dyddiad y prisiad nesaf er mwyn monitro'r sefyllfa.

Cyfradd Disgownt

Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn gysylltiedig efo'r gyfradd disgownt a defnyddir, y gyfradd taflunio codiadau cyflogau, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaeth a dychweliadau a disgwylir ar asedau'r Gronfa Bensiwn. Cyflogir cwmni o Actiwarïaid ymgynghorol er mwyn darparu cyngor arbenigol i'r Awdurdod Gweinyddu am y tybiaethau i'w defnyddio.

Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar yr ymrwymiad net pensiynau. Er enghraifft, byddai codiad o 0.5% yn y gyfradd disgownt yn golygu lleihad o £111m yn yr ymrwymiad pensiynau. Er hynny, mae'r tybiaethau yn rhyngweithio mewn modd cymhleth. Yn ystod 2010/11, cynghorodd Actiwari y Gronfa bod yr ymrwymiad net pensiynau wedi codi £21.2m fel canlyniad i gywiro'r amcangyfrifon yn dilyn profiad ac wedi codi £1.5m oherwydd diweddariad o'r tybiaethau.

**Risg Prisiau**

Mae'r Gronfa Bensiwn yn dal nifer o fuddsoddiadau ecwiti, bondiau ac eiddo. Felly, mae'n agored i elfen o risg mewn perthynas i symudiadau mewn prisiau'r buddsoddiadau. Gellir pris y buddsoddiadau codi neu fynd i lawr ac mae posibilrwydd na fydd buddsoddwyr yn cael yr holl swm a buddsoddwyd yn ôl.

Lleddfir hyn wrth fuddsoddi mewn portffolio amrywiol mewn termau rheolwyr a buddsoddiadau ac eto trwy'r actiwari ond yn rhagweld dychweliad tymor hir eithaf pwyllog er mwyn lleihau'r risg o dan-perfformiad. Ecwiti yw dosbarth mwyaf buddsoddiadau'r Gronfa. Mae 75% o'r buddsoddiadau ecwiti mewn cronfeydd cyfuno gyda 25% wedi ei buddsoddi mewn ecwiti unigol.

**Risg Marchnad Cyfnewid Dramor**

Mae'r Gronfa Bensiwn yn dal asedau neu ymrwymiadau wedi eu dynodi mewn arian dramor. Oherwydd hyn mae datguddiad i elfen o risg mewn perthynas i amrywiad arian.

Mae'r Gronfa wedi gwneud ymrwymiadau i fuddsoddiadau ecwiti preifat mewn arian dramor, (€100miliwn a $7miliwn). Tynnir yr ymrwymiadau hyn lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Dangosir yr ymrwymiadau sy'n dal yn ddyledus yn nodyn 17. Y risg yw bod y bunt yn

## Dadansoddiad Daliadau fel ar 31 Mawrth 2011

| | Gwerth ar y Farchnad £'000 | % |
|---|---|---|
| **Bondiau'r DU** | | |
| Llog Sefydlog: Dychweliad Absoliwt | 141,937 | 13.85 |
| **Cyfanswm Bondiau'r DU** | **141,937** | **13.85** |
| **Cyfranddaliadau'r DU** | | |
| Mwyngloddio | 2,738 | 0.27 |
| Olew | 2,284 | 0.22 |
| Adeiladu | 1,052 | 0.10 |
| Fferyllol | 972 | 0.10 |
| Baco | 814 | 0.08 |
| Gwerthwyr Bwyd | 357 | 0.04 |
| Gwerthwyr Cyffredinol | 426 | 0.04 |
| Gwasanaethau Cefnogol | 467 | 0.05 |
| Caledwedd Technoleg Gwybodaeth | 521 | 0.05 |
| Trydan | 210 | 0.02 |
| Telegyfathrebu | 1,459 | 0.14 |
| Banciau | 3,804 | 0.37 |
| Eiddo | 48 | 0.00 |
| Cyfanswm Cyfranddaliadau'r DU | 15,152 | 1.48 |
| Mentrau'r DU | 1 | 0.00 |
| Ymddiriedolaethau'r DU | 264,246 | 25.79 |
| **Cyfanswm y DU** | **279,399** | **27.27** |
| **Cyfranddaliadau Tramor** | | |
| Ewrop | 40,761 | 3.98 |
| Dwyrain Pell (ac eithrio Siapan) | 7,317 | 0.71 |
| Siapan | 16,769 | 1.64 |
| Gogledd America | 76,988 | 7.51 |
| Cyfanswm Cyfranddaliadau Tramor | 141,835 | 13.84 |
| Ymddiriedolaethau Uned Tramor | 132,270 | 12.91 |
| **Cyfanswm Tramor** | **274,105** | **26.75** |
| **Ymddiriedolaethau Byd Eang (gan gynnwys y DU)** | **166,179** | **16.22** |
| **Contractau Deilliad** | **(172)** | **(0.01)** |
| **Ecwiti Preifat** | **50,967** | **4.97** |
| **Ymddiriedolaethau Uned Eiddo** | **89,207** | **8.69** |
| **Arian Parod â Chyfalaf Gweithiol Net** | **22,156** | **2.26** |
| **Cyfanswm Gwerth ar y Farchnad** | **1,023,778** | **100.00** |

